Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Polisi a Gweithdrefn Moeseg Ymchwil

Fersiwn: 2
Dyddiad Cymeradwyo: Hydref 2025
Dyddiad Adolygu: Hydref 2027

Cynnwys

**Cyflwyniad** 2

**Cwmpas** 2

**Egwyddorion** 3

**Moeseg Ymchwil** 3

**Cyfrifoldebau** 3

**Ymgeisio am Gymeradwyaeth Moeseg Ymchwil** 4

**Gweithdrefnau** 4

*Ymchwil sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol* 4

*Cymeradwyaeth Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG* 4

*Ymchwil yn Ymwneud ag Anifeiliaid a Thraweffaith Amgylcheddol* 5

*Ymchwil a gynhelir oddi allan i'r DU* 5

**Wedi derbyn cymeradwyaeth** 5

*Diwygiadau* 5

*Adrodd am Ddigwyddiadau Niweidiol* 5

*Apeliadau* 6

*Torri Polisi a Chwynion* 6

**Cyrff Proffesiynol** 6

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o foeseg, trylwyredd ac uniondeb yn ei holl ymchwil ac yn ceisio amddiffyn urddas, hawliau a lles pawb sy'n ymwneud â'r ymchwil mae'n ei chynhyrchu. Mae Moeseg Ymchwil yn gyfres fyd-eang o egwyddorion sy'n rheoli sut mae gwaith ymchwil sy'n ymwneud â rhyngweithiad rhwng ymchwilwyr a bodau dynol (gan gynnwys meinwe neu ddata dynol), yn ogystal ag anifeiliaid, neu'r amgylchedd, yn cael ei gynllunio, ei reoli a'i weithredu.

Rhaid i bob ymchwil a gynhelir o dan fantell y Brifysgol gael ei chynnal mewn modd moesegol. Fodd bynnag, mae rhai prosiectau penodol angen derbyn cymeradwyaeth moeseg ymchwil gan un o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol cyn iddynt ddechrau. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys.

- Ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol (gan gynnwys pan mai'r ymchwilydd yw'r unig gyfranogwr)
- Ymchwil sy'n ymwneud â deunydd dynol (gan gynnwys gweddillion dynol)
- Ymchwil sy'n ymwneud â data personol (gan gynnwys data cyfryngau cymdeithasol)
- Ymchwil sy'n ymwneud ag anifeiliaid (gan gynnwys isgynnyrch anifeiliaid)
- Ymchwil a allai effeithio ar yr amgylchedd (gan gynnwys datguddiad i nwyon/cemegolion a allai niweidio ymchwilwyr ac o bosib rhai sydd gerllaw)

Ni all Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ddarparu cymeradwyaeth ôl-syllol i gynigion ymchwil. Os ydych yn casglu data cyn i chi gael cymeradwyaeth, ni fyddwch yn gallu defnyddio'r data hwnnw a gallai hyn arwain at ymchwiliad i gamymddwyn ymchwil posib.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod yr holl ymchwil yn cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion moesegol hanfodol. Mae'r un mor berthnasol i brosiectau yr ymgymerir â hwy gan staff a myfyrwyr yn y Brifysgol, waeth beth fo'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys gwaith cydweithredol gyda sefydliadau trydydd parti, rhaglenni sydd wedi'u dilysu ac sydd â masnachfraint yn cael eu cyflawni gan sefydliadau partner a gwaith ymchwil a gynhelir drwy staff sy'n ymweld neu staff anrhydeddus o dan fantell Prifysgol Wrecsam.

Dylai ymchwil gael ei dehongli'n fras i gynnwys pob ymchwiliad a wneir o dan fantell y Brifysgol, waeth p'un a ydynt wedi cael eu hariannu neu heb gael eu hariannu. Mae'r polisi'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i brosiectau ymchwil, astudiaethau cynlluniau peilot, archwiliadau, gwerthusiadau gwasanaeth, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n ymwneud â chasglu data sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth, dealltwriaeth, neu asesiadau a allai gyfrannu at drafodaeth academaidd neu gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPau), Mentrau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTVau), gwaith ymgynghori, a gweithgareddau ymgysylltiad cyhoeddus. Yn benodol, mae'n cynnwys unrhyw brosiect sy'n ymwneud â chasglu, dadansoddi neu ddehongli data sydd wedi'i fwriadu ar gyfer cynhyrchu canfyddiadau neu gasgliadau y gellir eu cyffredinoli.

## Egwyddorion

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod ei holl weithgareddau ymchwil yn cael eu gweithredu mewn ffordd ddiogel a ffordd sy'n parchu hawliau, urddas a lles pawb sy'n rhan ohono.

Mae egwyddorion moesegol arweiniol y Brifysgol wedi'u hamlinellu fel a ganlyn.

1. Dylai Ymchwil anelu i fwyhau'r buddion i unigolion a'r gymdeithas a lleihau'r risgiau a'r niwed posib. Dylai'r holl risgiau a niwed posib gael eu lliniaru gan ragofalon cydnerth a rhaid i'r holl gyfranogwyr sy'n cymryd rhan gael eu rhybuddio cyn cyfranogi.
2. Lle bynnag y bo'n bosib, dylai holl gyfranogwyr ymchwil gymryd rhan yn wirfoddol, yn rhydd o unrhyw berswâd neu ddylanwad gormodol, a dylid parchu eu hawliau, eu hurddas a'u hunanreolaeth a'u gwarchod mewn modd priodol.
3. Rhaid parchu cyfrinachedd yr wybodaeth a ddarperir gan gyfranogwyr ymchwil yn ogystal â'u hawl i fod yn anhysbys. Lle bynnag y bo'n bosib, dylai data gael ei anonymeiddio a dylid cydymffurfio'n llwyr gydag egwyddorion Deddf Gwarchod Data 2018. Gall data personol ond cael ei ddatgelu pan mae caniatâd i ddatgelu yn rhan o'r weithdrefn ganiatâd.
4. Dylai annibyniaeth ymchwil gael ei gynnal a lle na ellir osgoi gwrthdaro buddiannau, dylent gael eu gwneud yn hysbys.
5. Dylai ymchwil gael ei gynllunio, ei adolygu a'i ymgymryd er mwyn sicrhau bod safonau cydnabyddedig uniondeb yn cael eu bodloni, a safon a thryloywder yn cael eu sicrhau.
6. Rhaid i'r ymchwil gydymffurfio gyda'r holl ofynion statudol perthnasol ac i ofynion y sefydliad yr ymgymerir â'r ymchwil.

## Moeseg Ymchwil

Fel arfer, nid oes angen cymeradwyaeth moeseg ymchwil ar gyfer y sefyllfaoedd canlynol; fodd bynnag, gallai'r prosiectau hyn gael eu hystyried i fod yn foesegol, gan gynnal y safonau uchaf o uniondeb a sicrhau bod unrhyw ofynion llywodraethu eraill yn eu lle cyn i'r ymchwil ddechrau.

- Adolygiad Llenyddiaeth/Systematig
- Dadansoddiad Cofnodi
- Mae cofnodion a setiau data sydd wedi'u hanonymeiddio ar gael i'r cyhoedd, a hynny o fewn ac oddi allan i'r DU. Mae hyn yn cynnwys setiau data y gellir eu cyrchu drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) neu Archif Data'r DU, cyn belled ag y bo'r caniatâd angenrheidiol wedi cael eu sicrhau ac na ellir adnabod unigolion o'r wybodaeth a roddwyd.
- Ymchwil sy'n ymwneud â llinellau celloedd sefydledig
- Data a gesglir yn unig at bwrpasau busnes neu werthusiad mewnol Prifysgol Wrecsam, megis asesiadau cwrs myfyriwr neu fecanweithiau adborth. Fodd bynnag, ni all y data hwn gael ei ddefnyddio at bwrpas ymchwil, gan gynnwys cyhoeddi, yn ddiweddarach.
- Ymgynghoriadau a data a gesglir gan bartïon sydd â diddordeb yn ystod camau datblygu cynnig ymchwil. Fel y pwynt blaenorol, ni all y data hwn ychwaith gael ei ddefnyddio at bwrpas ymchwil, gan gynnwys cyhoeddi, yn ddiweddarach.

## Cyfrifoldebau

Mae **Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol** yn gyfrifol am ddarparu polisi ac arweiniad ar foeseg ymchwil ac uniondeb ymchwil, gan sicrhau bod proses effeithiol a chadarn yn ei lle.

Mae **Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol** yn gyfrifol am hyrwyddo diddordeb cyfranogwyr mewn ymchwil drwy adolygu ceisiadau sy'n ceisio cymeradwyaeth moeseg ymchwil a sicrhau eu bod yn cael ei weithredu yn unol ag egwyddorion moeseg ymchwil, polisïau a gweithdrefnau.

Mae **aelodau o staff,** gan gynnwys staff sy'n ymweld a staff anrhydeddus sy'n ymgymryd ag ymchwil o dan fantell y Brifysgol yn gyfrifol am ystyried goblygiadau moesegol eu prosiectau ymchwil, cynnal eu hymchwil gan ddilyn gweithdrefnau ac egwyddorion y Brifysgol a chael cymeradwyaeth moeseg ymchwil ffurfiol gan y pwyllgor moeseg ymchwil perthnasol cyn mae gwaith ymchwil yn dechrau.

Yn achos yr ymchwil yr ymgymerir ag ef gan fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig, y **Goruchwyliwr** sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu myfyrwyr wedi derbyn hyfforddiant addas mewn moeseg ymchwil, eu bod yn gyfarwydd gyda pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, bod yr ymchwil sy'n cael ei gynnal yn cael ei ystyried yn foesegol a bod y gymeradwyaeth gywir wedi'i sicrhau cyn i'r ymchwil ddechrau.

## Ymgeisio am Gymeradwyaeth Moeseg Ymchwil

Dylai'r holl geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth moeseg ymchwil gael eu cyflwyno drwy System Moeseg Ymchwil Wrecsam. Rhaid i geisiadau gael eu cwblhau i safon uchel a dylent gynnwys yr holl ddogfennaeth berthnasol cyn y gallent gael eu hadolygu. Rhaid i geisiadau myfyrwyr gael eu cymeradwyo gan eu goruchwyliwr cyn iddynt gyflwyno eu cais am gymeradwyaeth. Bydd ceisiadau'n cael eu priodoli naill ai i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol neu Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Gyfadran, yn dibynnu ar y risgiau sy'n gysylltiedig.

## Gweithdrefnau

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu proses annibynnol o adolygiad moesegol sy'n gymesur i'r risg posib sy'n gysylltiedig. Mae'r broses yma'n cynnwys amrywiaeth o weithdrefnau ar gyfer mathau penodol o geisiadau.

### *Ymchwil sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol*

Bydd gwaith ymchwil sydd wedi derbyn cymeradwyaeth yn flaenorol gan bwyllgor moeseg ymchwil cydnabyddedig arall yn parhau i fod angen derbyn cymeradwyaeth foesegol gan y Brifysgol. Bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol fel arfer yn adolygu a chymeradwyo'r ceisiadau hyn drwy gydnabod cymeradwyaeth a dogfennaeth a gyflwynwyd gan y pwyllgor moeseg allanol. Rhaid i ymchwilwyr gyflwyno eu cais drwy system foeseg ymchwil ar-lein y Brifysgol. Dylai'r cais hwn gynnwys yr holl ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys y llythyr cymeradwyaeth gan y pwyllgor moeseg allanol, y gyfres gyflawn o ddeunyddiau cais sydd wedi'u cymeradwyo sy'n cynnwys ymwneud Prifysgol Wrecsam.

### *Cymeradwyaeth Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG*

Mae'n ofynnol i ymchwil sy'n gofyn am weithdrefnau adolygu moesegol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gyflwyno cais drwy'r System Cais Ymchwil Integredig (IRAS). Os felly, bydd y Brifysgol yn goruchwylio'r broses hon a does dim angen cael cymeradwyaeth foesegol ychwanegol gan un o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Rhaid i'r holl brosiectau sy'n cael eu cyflwyno 'r GIG drwy'r System Cais Ymchwil Integredig fod wedi eu noddi gan y Brifysgol. Noddwr y

Brifysgol yw Pennaeth y Gwasanaethau Ymchwil, ac felly sicrhewch eich bod yn cysylltu â hwy wrth ddechrau cais IRAS.

### *Ymchwil yn Ymwneud ag Anifeiliaid a Thraweffaith Amgylcheddol*

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw Prifysgol Wrecsam yn dal trwydded sefydliad sy'n ofynnol gan Ddeddf Gweithdrefnau Gwyddonol Anifeiliaid 1986. Dylai unrhyw ymchwil sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu gynnyrch gan anifeiliaid gyfeirio at y Weithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer gwaith a wneir gydag Anifeiliaid. Dylai ymchwil sy'n cynnwys dulliau o gasglu data a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd gyfeirio at Weithdrefn Moeseg Ymchwil Traweffaith Amgylcheddol Niweidiol Posib.

### *Ymchwil a gynhelir oddi allan i'r DU*

Lle mae'n bosib, dylai unrhyw ymchwil a wneir oddi allan i'r DU, gan gynnwys gweledydd yr UE ac AEE, sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil yn y lle cyntaf gan bwyllgor moeseg ymchwil yn y wlad leol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth Moeseg Ymchwil Prifysgol Wrecsam. Mae hyn oherwydd bod y farn o'r hyn sy'n fethodolegau ymchwil sy'n dderbyniol yn foesegol yn dibynnu ar amgylchedd diwylliannol, gwleidyddol a rheoleiddiol y lleoliad y cynhelir yr ymchwil. Mae ystyriaethau moesegol ymchwil, sut rydym yn creu cysyniadau o'r syniad o hawliau unigol o fewn ymchwil, a'r sensitifrwydd gwleidyddol a diwylliannol o fewn ymchwil yn amrywio ar draws y byd. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at Weithdrefn Cymeradwyo Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar gyfer Ymchwil a wneir oddi allan i'r DU

## Wedi derbyn cymeradwyaeth

### *Diwygiadau*

Unwaith rydych wedi derbyn cymeradwyaeth moeseg ymchwil, rhaid i'ch astudiaeth gael ei gynnal un unol â'r cais a'r ddogfennaeth sydd wedi eu cymeradwyo. Mae gwaith ymchwil yn aml yn esblygu'n gyflym, a gallai hyn arwain at weithgareddau sy'n disgyn oddi allan i'r gymeradwyaeth wreiddiol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, dylai unrhyw ddiwygiadau i'ch cais gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Mae cynnal ymchwil oddi allan i'r cwmpas a gymeradwywyd yn torri'r gymeradwyaeth foesegol honno a gallai arwain at ymchwiliadau camymddwyn.

### *Adrodd am Ddigwyddiadau Niweidiol*

Dylai'r holl staff a myfyrwyr fod yn gyfarwydd gydag adrodd am weithdrefn digwyddiadau niweidiol cyn dechrau ar unrhyw ymchwil.  Gall rhai astudiaethau penodol sy'n ymwneud a chyfranogwyr dynol neu ddata personol fod â risg y gallant arwain at ddigwyddiadau niweidiol. Mae deddfwriaeth a fframweithiau llywodraethu'n bodoli er mwyn sicrhau bod asesu, monitro ac adrodd am unrhyw ddigwyddiadau niweidiol yn cael eu diffinio'n eglur er mwyn rhwystro a lliniaru digwyddiadau niweidiol a hyrwyddo ac amddiffyn diogelwch y cyfranogwr. Mae'r Brifysgol yn diffinio digwyddiad niweidiol (AE) fel digwyddiad anweddaidd yn ystod astudiaeth ymchwil sydd wedi arwain neu allai arwain at niwed anfwriadol neu annisgwyl, colled neu ddifrod. Dylai'r Prif Ymchwilydd neu Oruchwyliwr hysbysu'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil o fewn 10 diwrnod i ddigwyddiad niweidiol gymryd lle.

*Apeliadau*

Os yw cais wedi cael ei wrthod gan un o bwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol neu bod yr amgylchiadau neu'r newidiadau y gofynnir amdanynt gan y pwyllgor yn cael eu hystyried i fod yn annerbyniol gan yr ymgeisydd neu ar gyfer rhesymau ymchwil sydd wedi'u cyfiawnhau, gall yr ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad yr adolygiad. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y broses hon yn y Weithdrefn Apelio Moeseg Ymchwil.

*Torri Polisi a Chwynion*

Mae'r Brifysgol yn ystyried unrhyw dor-polisi neu dorri telerau prosiect a gymeradwywyd yn fater difrifol iawn, a gallai arwain at weithrediadau camymddwyn ymchwil. Dylai unrhyw achosion lle amheuir bod y polisi yn cael ei dorri gael ei adrodd wrth Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol rescadmin@wrexham.ac.uk lle gallant, dan y rheoliadau, ddiddymu, gohirio neu dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ymchwil, p'un a yw hynny yn rhan o weithrediadau disgyblu neu ddim.

## Cyrff Proffesiynol

Mae'n ofynnol i'r holl staff a myfyrwyr gadw at bolisïau, egwyddorion a gweithdrefnau'r Brifysgol wrth gynnal ymchwil. Yn ogystal, mae'n bwysig bod staff a myfyrwyr yn ymgyfarwyddo, a lle mae'n briodol, dilyn y Cod Ymddygiad, Cod Moeseg, a chanllawiau Moeseg Ymchwil a sefydlwyd gan eu cyrff proffesiynol cyfatebol.